**EITEM AR YR AGENDA: 6**

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**
**PANEL GWEITHREDOL**

**28ain Gorffennaf 2008**

**CRYNODEB O WEITHGAREDD ARCHWILIO MEWNOL 2007/08 AC ASESIAD ANGHENION A CHYNLLUN ARCHWILIO DRAFFT AR GYFER 2008/09**

**Adroddiad gan Mike Halstead,**
**Pennaeth Gwasanaethau Archwilio a Chaffael**

**Diben yr Adroddiad**

**1.** I dderbyn crynodeb o waith Archwilio Mewnol ar gyfer 2007/08.

**2.** I gymeradwyo'r Asesiad Anghenion Archwilio Mewnol a Chynllun Archwilio Mewnol Drafft ar gyfer 2008/09.

**Gwybodaeth**

**3.** O dan dermau Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005, wnaed o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 a Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, mae gan Awdurdodau Tân gyfrifoldeb statudol i gynnal "system ddigonol ac effeithiol o archwiliad mewnol."

**4.** Mae'r swyddogaeth Archwiliad Mewnol yn cael ei wneud ar ran yr Awdurdod Tân gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ac yn swyddogaeth arfarnu annibynnol ar gyfer adolygu gweithgareddau'r Awdurdod Tân ac Achub fel gwasanaeth i bob lefel o reolaeth.

**GWYBODAETH *(parhad)***

**5.** Mae Rheoliadau Ariannol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn nodi y dylid cyflwyno adroddiad o dan enw Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru mewn perthynas â'r cynllun archwilio i'r flwyddyn ariannol sy'n dod ac adroddiad o berfformiad yn erbyn y cynllun gwreiddiol i'r flwyddyn ariannol flaenorol.

**6.** Mae'r cyfrifoldeb am bennu cynnwys y cynllun archwilio yn gorwedd gyda'r Prif Swyddog Tân a'r darparwyr archwiliad mewnol. Dylid paratoi'r cynllun mewn ymgynghoriad â'r Archwilydd Allanol.

**7.** KPMG yw archwilydd allanol yr Awdurdod Tân ac Achub ar hyn o bryd.

**8.** Gellir rhannu'r gwaith archwilio mewnol i bedwar categori:

(a)**Archwiliadau Rheoleidd-dra**, sydd wedi eu cynllunio i sicrhau fod:-

- Yr holl incwm sy'n ddyledus i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn cael ei gasglu, ei dderbyn, ei ddiogelu, ei fancio a'i gofnodi'n gywir.
- Yr holl daliadau a wneir wedi eu hawdurdodi'n gywir, o fewn y gyllideb ac yn unol â Rheolau Sefydlog a Rheoliadau Ariannol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru.
- Yr holl staff wedi cael eu hapwyntio'n briodol ac yn derbyn tâl yn unol â thermau ac amodau eu hapwyntiad.
- Fod gwerth am arian yn cael ei sicrhau am nwyddau a gwasanaethau a brynir.
- Fod eiddo ac asedau eraill yn cael eu cofnodi a'u diogelu'n gywir.

(b) Mae **Archwiliadau Systemau** wedi cael eu cynllunio i sicrhau fod yr holl systemau a gweithdrefnau sy'n gweithredu yn cynnwys rheolaethau digonol oddi mewn iddynt i atal twyll neu anghysondebau eraill, e.e. dylai o leiaf dau berson fod yn rhan o'r holl weithdrefnau.

(c) **Archwiliad Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebiadau.** Mae hyn yn cael ei ddefnyddio i brofi cywirdeb y systemau cyfrifiadurol mewn gweithrediad, a hefyd gan yr holiad o systemau cyfrifiadur i gynorthwyo wrth ddarganfod twyll ac anghysondebau eraill.

(ch) **Archwiliad Cytundeb,** sy'n cynnwys arfarniad ariannol ar ddarpar gontractwyr, archwiliad o reolaethau gweithredol i sicrhau cydymffurfiad gyda Rheolau Sefydlog Cytundeb ac archwiliad o sampl o gytundebau cyfredol a rhai sydd wedi eu cwblhau eisoes, yn cynnwys dilysu cyfrifon terfynol.

**9.** Paratoir adroddiad yn dilyn pob archwiliad mewnol fydd yn:-

- Nodi diben, sgôp, darganfyddiadau a chasgliadau'r archwiliad.
- Gwneud argymhellion i gyfeirio at unrhyw wendidau a adnabyddir.
- Cynnwys cynllun gweithredu i fonitro a chynorthwyo wrth weithredu'r argymhellion.
- Darparu er mwyn gwneud dilyniant o fewn cyfnod rhesymol o gyhoeddi'r adroddiad terfynol.

## ADOLYGIAD O WEITHGAREDD 2007/08

**10.** Yn ystod 2007/08, darparwyd 53 o ddyddiau archwilio fel y dynodwyd yn y cynllun archwilio strategol. Paratowyd pedwar adroddiad yn ystod y flwyddyn yn cynnwys y canlynol:-

- **Y Gyflogres – Cychwynwyr ac Ymadawyr** – adolygu, profi ac adrodd ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd y rheolaethau mewnol sy'n weithredol, mewn perthynas ag Adnoddau Dynol a gweithdrefnau cychwynwyr ac ymadawyr y gyflogres.
- **Rheoli'r Fflyd - Tanwydd** - adolygu'r rheolaeth a'r cyflwyniad o gardiau tanwydd, defnydd o ddata defnyddio tanwydd, taliad o anfonebau tanwydd a rheoli'r gyllideb.
- **Rhestrau Stoc Gorsafoedd Tân a pheiriannau –** adolygu cofnodion rhestrau stoc gorsafoedd tân a pheiriannau a diogelwch offer.
- **Menter Twyll Cenedlaethol -** ymarfer 'cydweddau data' cynhwysfawr a thrylwyr drefnwyd gan y Comisiwn Archwilio mewn partneriaeth gyda Swyddfa Archwilio Cymru. Archwiliwyd yr holl gydweddiadau gan yr Adran Archwilio Mewnol ac adroddwyd y canlyniadau. Mae'r Adran Archwilio Mewnol wedi cynorthwyo wrth ddarparu gwybodaeth i archwiliadau llwyddiannus gydag Awdurdodau eraill dros y flwyddyn ddiwethaf ar ran Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru.

**11.** Mae atodlen sy'n rhoi barn archwilio o ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd y prosesau rheolaeth fewnol mewn perthynas â'r holl asesiadau archwiliad ymgymerwyd â hwy yn ystod 2007/08 ynghlwm yn Atodiad A. Mae canlyniad pob archwiliad a'r gwerthusiad o ddigonolrwydd yr amgylchedd rheolaeth fewnol yn seiliedig ar y nifer o argymhellion a'u cyfraddau risg. Aseswyd yr holl archwiliadau yn ystod y flwyddyn fel rhai oedd

yn darparu lefelau cadarnhaol o sicrwydd fod rheolaethau mewnol yn gweithredu'n effeithiol a bod risgiau'n cael eu rheoli'n briodol.

**12.** I gyfeirio at y gwendidau adnabuwyd yn ystod yr adolygiadau archwilio, gwnaed 30 o argymhellion.

**13.** Cyhoeddwyd cynlluniau gweithredu sy'n gosod yr ymateb cytunedig i argymhellion archwiliad gyda Chychwynwyr ac Ymadawyr y Gyflogres, Rheoli'r Fflyd - Tanwydd a Rhestrau Stoc Gorsafoedd Tân a Pheiriannau ac mae'r rhain wedi cael eu dychwelyd oddi wrth reolwyr yr Awdurdod Tân ac Achub, wedi eu cwblhau gyda'r camau i'w cymryd i sicrhau gweithrediad yr argymhellion. Ni wnaed unrhyw argymhellion yn yr adroddiad Menter Twyll Cenedlaethol ac mewn perthynas â'r archwiliad Technoleg Gwybodaeth - Rheoli'r Rhwydwaith, mae'r adolygiad wedi cael ei ohirio hyd Mai 2008 ar gais y rheolwyr.

**14.** Mae Cod Ymarfer CIPFA ar Archwiliad Mewnol mewn Llywodraeth Leol yn nodi "Mae gan y rheolwyr y cyfrifoldeb i sicrhau fod gweithredoedd cytunedig yn cael eu gweithredu. Fe ddylai Archwiliad Mewnol gael sicrwydd fod gweithredoedd wedi cael eu gweithredu". Mae proses dilyn ymlaen yn weithredol o fewn yr Adran i gadarnhau fod yr argymhellion wnaed yn adroddiadau Archwiliad Mewnol wedi cael eu gweithredu gan reolwyr o fewn amserlenni wedi eu cytuno. Bydd archwiliad dilynol fel arfer yn digwydd chwe mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad terfynol. Mae atodlen o'r archwiliadau dilynol wnaed yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2007 hyd 31 Mawrth 2008 ynghlwm fel Atodiad B. Mae'n arddangos y nifer o argymhellion a dderbynnir a'u gweithredu'n ddilynol gan reolwyr ym mhob ardal ac yn datguddio newidiadau sy'n effeithio ar y farn archwilio wreiddiol. Bydd gwaith dilyn i fyny pellach yn cael ei berfformio yn yr ardaloedd hynny lle mae nifer arwyddocaol o argymhellion yn parhau heb eu cwblhau.

## ADOLYGIAD O WEITHGAREDD 2007/08 *(parhad)*

**15.** Mae crynodeb o weithgaredd archwilio ynghlwm fel Atodiad C ac yn dangos y dyraniad arfaethedig o adnoddau archwilio yn nhermau dydd gweithiwr dros adrannau a gwasanaethau ac yn cymharu'r gwaith gwirioneddol wnaed ar gyfer 2007/08 gyda'r cynllun. Mae'n amlwg o'r Crynodeb o Weithgaredd Archwiliad Mewnol ar gyfer 2007/08 fod yr adolygiad o Reolaeth Rhwydwaith oedd wedi ei gynllunio ar gyfer 2007/08 wedi ei ohirio hyd 2008/09 ar gais rheolwyr Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru ac wedi ei amserlennu ar gyfer Mai 2008. Mae'r archwiliad Recriwtio a Dewis gynlluniwyd ar gyfer 2007/08 wedi ei adnabod fel llithriad. Fodd bynnag, roedd yr archwiliad Cychwynwyr ac Ymadawyr hefyd yn canolbwyntio ar weithdrefnau recriwtio Adnoddau Dynol mewn perthynas â llythyrau apwyntio, cytundebau cyflogaeth, gwiriadau tystysgrifau geni, Tystiolaeth Ffitrwydd Uned Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol, sicrhau cyfeirnodau digonol a derbyn canlyniadau boddhaol i archwiliadau ymgymerwyd gan y Biwro Cofnodion Troseddol.

### BARN YR ARCHWILIAD

**16.** Yn seiliedig ar y gwaith yr ymgymryd ag ef yn ystod 2007/08, mae'r farn Archwiliad Mewnol o'r systemau o reolaethau mewnol sefydlwyd gan reolwyr i reoli risgiau enwyd yn foddhaol.

**Asesiad anghenion a chynllun archwilio drafft ar gyfer 2008/09**

**17.** Mae'r Cynllun Blynyddol Drafft ar gyfer 2008/09 ynghlwm fel Atodiad D. Diben y cynllun archwilio blynyddol yw i:-

- Sefydlu blaenoriaethau archwilio ar y cyd gyda Rheolaeth yr Awdurdod Tân ac Achub yn seiliedig ar ymagwedd seiliedig ar risg i bennu anghenion archwilio'r Awdurdod ar gychwyn bob blwyddyn
- Pennu'r adnoddau sydd eu hangen i wneud y dyletswyddau archwilio angenrheidiol
- Ffurfioleiddio tasgau archwilio
- Adolygiad o waith archwilio'r flwyddyn flaenorol

**18.** Mae'r cynllun archwilio wedi cael ei ddylunio fel canllaw yn unig. Gall newidiadau mewn amgylchiadau neu ddigwyddiadau anrhagweladwy eraill achosi amrywiaethau o'r cynllun. Mae'r cynllun ar gyfer 2008/09 wedi cael ei baratoi yn dilyn ymgynghoriad gyda Rheolaeth yr Awdurdod Tân ac Achub. Mae'r cynllun yn cynnwys amser i ddilyn argymhellion o archwiliadau blaenorol.

**19.** Mae'r Asesiad Anghenion Archwiliad Mewnol ynghlwm fel Atodiad E. Mae'r Asesiad, sy'n ymgorffori dadansoddiad risg, wedi ei gynllunio i gynnwys yr holl agweddau archwiliadwy o weithgaredd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ac yn cael eu defnyddio, mewn ymgynghoriad gyda'r rheolwyr, i hwyluso'r ymagwedd sy'n seiliedig ar risg wrth bennu anghenion archwilio'r Awdurdod ar gychwyn pob blwyddyn.

**Argymhellion**

**20.** Fod Crynodeb Archwilio Mewnol 2007/08 yn cael ei nodi a Chynllun Archwilio Mewnol Drafft ac Asesiad Anghenion 2008/09 yn cael ei gymeradwyo.